

Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yng ngholeg y Bedyddwyr, Heol Richmond, Caerdydd

Yn bresennol: Parch Peter Dewi Richards (Llywydd), Rheinallt Thomas (Is lywydd), Parchedigion Gethin Rhys, Martin Spain (Trysorydd), Judith Morris, Gareth Morgan Jones, Aled Jones, Irfon Roberts, Ian Morris, Sally Thomas, Paul Rochester, Paul Gutteridge, Steffan Alun (Cyfieithydd) Helen Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheuriadau: Parch Ganon Aled Edwards, Parchgion. Meirion Morris, Chris Gillham a Eirian Wyn; Vaughan Salisbury.

1. Croeso: Croesawodd y Llywydd Parch Peter Dewi Richards bawb i'r cyfarfod ac yn arbennig y cyfieithydd Steffan Alun a'r ddau westai o Lundain, sef, Parch Paul Rochester a Mr. Paul Gutteridge.

2. Defosiwn: Peter arweiniodd y defosiwn. Daeth y Myfyrdod allan o Effesiaid 4. Wedi darllen llyfr Parch Ddr. Trystan Hughes ar "finding hope and meaning in suffering" a hithau'n wythnos Cymorth Cristnogol dwedodd bod yr asantiaeth yn agor ein llygaid i'r dioddefaint sy'n digwydd yn y byd. Un teulu ydym ni ac mae gennym gyfrifoldeb i fod yn ddwylo, traed a genau'r Iesu. Dylai pob dioddefaint fod o gonsym i ni i gyd.

3. Cofnodion 17 Tachwedd 2016 - Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ag eithrio cymal yn adroddiad Saesneg URC " dylid darllen, "ecumenism ... ministers and their co-partners will be meeting shortly."

Materion yn codi (i) Trysorydd - Esboniodd y Trysorydd rheswm tu ôl i pwynt 'c' yn ei adroddiad yn y cofnodion.

(ii) **Adroddiad Rheinallt Thomas o Eglwysi Rhyddion y Gogledd.** Bu cyfarfod ym mis Mawrth. Daeth 12 i gyfarfod ym Mangor - rhan fwyaf yn gyn lywyddion ag eithrio un. Esboniodd mai bwriad cangen y gogledd yn wreiddiol oedd i drosglwyddo gwobrwyo Medalau Gee i ofal Cyngor Ysgolion Sul. Penderfynwyd i gyflwyno medalau eleni ac i hysbysebu yn y 4 TUDALEN am ymgeiswyr. Does dim llawer o fedalau Gee ar ôl bellach yn y Gogledd. Bydd y rhai a wobrwyr yn cael eu hanrhydeddu mewn gwasanaeth yng nghapel Emaus, Bangor am 3pm ar 28 Medi. Mae Rheinallt wedi cytuno i fynd yno ar y dydd ac annerch yn y gwasanaeth. Cyn hynny am 1.30 gwahoddir Gweinidogion yr ardal i gyfarfod i drafod dyfodol rhanbarth y gogledd. Dibynnir ar y gefnogaeth hwnnw am barhad C E Rh y G. Bydd panel o'r Gogledd yn cyfarfod cyn y dyddiad i wyntyllu haeddiant ymgeiswyr am fedal. Dymunodd y llywydd yn dda am barhad o'r trafodaethau a chael cyfle i ailgodi'r Cyngor yn y gogledd.

(iii) **Cyngor Eglwysi Rhyddion y De.** - Irfon Roberts. Hysbyswyd bod y cyn Drysorydd C. E. Rh y de, Vivian Williams wedi trosglwyddo'r cyfrifon i Irfon Roberts. Rhannodd bod un ymgeisydd i dderbyn Medal Gee yn y De eleni. Dwedodd Irfon bod rhai celloedd bywiog yn bodoli yn y de ond lleihau mae'r diddordeb ac mae hyn yn fater o ddigalondid i'r Cyngor. Heb weledigaeth ac arweiniad mynegodd bod cystal gorffen cyfarfod y Cyngor a throsglwyddo'r arian sy'n weddill i goffrau C.E Rh.C. Awgrymwyd mai bodolaeth Cytun oedd wedi lladd celloedd y de er mynegodd Martin bod Cytun fel grwp yn wan yn Sir Benfro a'r C.E. Rh yn ffynnu. Poenwyd na fyddai llais gan Ymneulltiaeth yng Nghymru pe bai CE Rh yn gorffen.

Pwynt gweithredu: Irfon Roberts i gysylltu â chelloedd a gofyn am farn y celloedd ac adrodd nôl i gyfarfod mis Tachwedd. Dylai'r Llywydd Rh T a chynrychiolwyr yr enwadau fod yn bresennol hefyd.
--

4. Cytun

1. Yr Etholiad

Dwedodd Gethin Rhys bod yr Etholiad Cyffredinol yn golygu llawer o bwysau gwaith. Mae'r wefan yn cyhoeddi cyfarfodydd gyda darpar ymgeiswyr seneddol. Gellid defnyddio gwefan Cytun i hysbysebu cyfarfodydd lleol ac i gael cyhoeddusrwydd. Cynigiodd Gethin helpu i drefnu cyfarfodydd pe bai'n cael y wybodaeth briodol.

2. Ewrop: Gwerthfawrogwyd bod Gethin wedi ysgrifennu llythyr ar ran yr Eglwysi Rhyddion. Hysbysodd byddai cyfarfod yng Nghaerdydd yng nghanolfan St Mihangel mewn 3 wythnos. Mae e'n paratoi at hwnnw. Bydd Carwyn Jones, prif weinidog Cymru, Comisynydd Ewrop ac eraill ym mhlith eraill yn y cyfarfod. Nododd mai dyfnhau a chryfhau bydd ein cysylltiad gydag Eglwysi Ewrop yn y dyfodol.

Bydd cyfarfodydd eraill yn yr Hydref a bydd manylion amdanynt yng nghyfarfod Tachwedd. Diolchwyd i Gethin am ei adroddiad.

5: Hyfforddiant - Adroddodd Parch Aled Jones mai cymysg yw darlun parthed cydweithio rhwng yr enwadau. Does dim yn digwydd rhwng cydweithio a Chanolfan St Padarn, rhwng yr Eglwys yng Nghymru a'r Ymneulltiwyr parthed hyfforddiant. Bu Bwrdd Dilysu Eciwmenaid yn bodoli ond wedi salwch a marwolaeth Parch Gwynn ap Gwilym ac ymddeoliad Esgob Tyddewi - Parch Wyn Evans ni fu cyfarfod. Dydy'r Esgobion ddim wedi dosbarthu dyletswyddau newydd ymhlith ei gilydd ac mae hyn yn rhwystredig.

Mae'r Coleg Gwyn ym Mangor yn ceisio tynnu hyfforddiant cyd-enwadol at ei gilydd. Strwythur o fewn enwadau sy'n creu anhawster.

Problem arall yw anhawster dilyn cyrsiau diwinyddiaeth yng Nghymru - myfyrwyr yn gorfod mynd i Birmingham Rhydychen, Nottingham, neu Lundain.

Nododd Aled bod 5 ymgeisydd am y Weinidogaeth – 2 ohonynt yn eu hugeiniau. Mae un wedi mynd i goleg diwinyddol yn Llundain a'r llall i Rhydychen. Mae 10 yn astudio cyrsiau dan adain y coleg yn Aberystwyth ar hyn o bryd. Mae hyn yn dangos gwendid yn y gyfundrefn addysg. Diolchodd Peter i Aled.

Mynegodd Gethin byddai adolygiad o Hyfforddiant yn fuddiol. Awgrymwyd dylai Aled a Gethin ar y cŷd ysgrifennu at Ysgrifennydd Addysg y Cynulliad - sef Kirsty Williams i fynegu pryder nad oedd colegau yng Nghymru yn darparu at anghenion y genedl nac yn cynnig cyrsiau Cymraeg. Niferoedd prin ydy'r maen tramgwydd o ran hynny.

PWYNT gweithredu: Cynigiwyd bod Gethin ac Aled yn cyfarfod â'i gilydd ac yn anfon gair at Ysg. Addysg Cymru yn gofyn am gyfarfod i esbonio'r sefyllfa

6a. Adroddiad Enwadau.

i. **Y Bedyddwyr** - Dathlu 150 mlwyddiant. Cynhadledd gwahanol eleni ym Mhrifysgol Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Y ddwy adran - Cymraeg a Saesneg yn dod at ei gilydd i gynnal eu cyfarfodydd ar ddydd Gwener 16 Mehefin. Bydd Dydd Sadwrn yn ddydd o ddathlu. Y Llywydd Cymraeg ydy Parch John Talfryn Jones a Parch Haydn Davies ydy Llywydd Adran Saesneg.

ii. **Yr Annibynnwyr** - Ymddiheuriadau ar ran Parch Geraint Tudur. Mae cynlluniau cenhadol yn parhau. Mae 3ydd Fideo y "Y Ffordd" wedi'i baratoi. Penodwyd Rhodri Darcey fel Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu. Mae e'n gweithio allan o Tŷ John Penry. Mae stiwdio yno sy'n cynhyrchu'r Fideos. Bydd dathliadau i gofio 200 mlwyddiant anfon cenhadon i Madagasgar yn 2018. Gobeithir y bydd Cymorth Cristnogol yn cefnogi'r ymgyrch. Bydd Undeb eleni yng nghapel Gellimanwydd, Rhydaman – Parch. Glyn Williams ydy'r Llywydd a'r Parch. Jill Hailey Harries ydy'r Is-lywydd. Dymunir adferiad buan i'r Parch Derwyn Morris Jones. Mynegodd Parch Gareth Morgan Jones y dylai C.E Rh C ysgrifennu ato'n ffurfiol.

iii. **Y Methodistiaid** – Synod yn ail strwythuro ac ymgynghori yn mynd ymlaen. Dechrau ym mis Medi - 4 grwp penodol: 1. Efengylu 2. Cefnogi a dathlu'r iaith Gymraeg. 3. Eciwmeniaeth - rhwng yr eglwysi ac hefyd grwpiau aml-ffydd 4. Hyfforddiant - cais i helpu pobl leol i fod yn arweinwyr eglwysi lleol. Pwrpas hyn yw edrych i fewn i'r hyn sy'n "arfer da" a defnyddio syniadau pobl tu allan i rannu ac i'r helpu ffordd ymlaen – yn adran y gogledd a'r de. Bydd hyn yn datblygu i fod yn Arfer da yr enwad yn y dyfodol ac yn cael ei fabwysiadu gan Synod Cymru gyfan.

iv. **Yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig** – Mae canrif ers ordeinio'r wraig gyntaf. Bydd Parch Kirsty Thorpe yn siarad mewn cyfarfod yn Eglwys Unedig Ddiwygiedig Windsor Place, nos Iau 18 Mai, i ddathlu'r digwyddiad o ganrif ers ordeinio merched i'r weinidogaeth. Eleni bydd dathlu 500 mlynedd ers y Diwygiad Protestanaidd. Mae dathliadau ar y gweill i gofio'r digwyddiad. Mae enwyddion yn ddefnyddiol i sôn am yr etholiad ac yn calonogi eglwysi i annog pobl i ddefnyddio'u pleidlais. Mae Gweinidogaeth "Cymeradwy a throsiannol" yn gweithio gydag eglwysi mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae hyfforddiant pobl lleog yn datblygu gyda chyrtsiau wedi ei pharatoi. Mae grwpiau Eciwmenaid yn Llandrindod yn cydweithio. Mae'r caplan gwledig wedi ymddeol ond ni wyddys beth fydd y cam nesaf.

v. **Y Presbyteriaid** - Adroddodd Rheinallt bod Sasiwn y De wedi cymryd lle wythnos cynt.

Bydd Parch Meirion Morris yn gorffen fel Ysgrifennydd Eglwys Presbyteriaidd Cymru yn yr haf. Wedi salwch, mae'n ail afael yn y gwaith gweinyddol ac mae pwyllgorau wedi'u trefnu i'w gynorthwyo. Gobaiith Meirion oedd datblygu cenhadaeth a gweinidogaeth o fewn yr enwad ond adeiladau fu ac yw'r broblem sy wedi mynnu ei sylw a'i amser.

Tristwch yw nodi fod aelodaeth wedi lleihau. Mae ariannu prosiectau/ eglwysi/adeiladau yn anodd ac er bod arian yn y gronfa ganolog ni ellid ei ddefnyddio achos eglwysi lleol sy berchen yr arian.

Ordeiniwyd 2 weinidog yn Sasiwn Tachwedd 1 yn y Gogledd a'r llall yn y De - cylch ardal Abertawe.

Mae angen apwyntio Cyfarwyddwr Academaidd i gydweithio gyda Delyth Oswy-Shaw ac i gydweithio o fewn hyfforddiant.

Bydd Cyfarfod Blynyddol yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf a'r Llywydd newydd fydd yr Athro John Gwynfor Jones. Mae e wedi ysgrifennu 4ed cyfrol o hanes yr enwad.

Mae gwefan newydd yr enwad bron yn barod.

PWYNT Gweithredu: Yr Ysgrifennydd i ysgrifennu'n swyddogol at Parch Meirion Morris i ddymuno'n dda iddo ar ei ymdeoliad ac i ddymuno adferiad buan iddo.

vi. **Cong fed:**Bydd y gynhadledd flynyddol yn Neuadd Brangwyn Abertawe ar 10 Mehefin. Llywydd newydd fydd Parch Martin Spain. Un o'r digwyddiadau fydd darlith goffa am y cenhadwr Gruffydd John a'i gyfraniad fel cenhadwr yn China fu farw 100 yn ôl. Cynhelir y ddarlith yn Amgueddfa Dinas Abertawe.

Mae llawer o ail stwythuro'n digwydd o fewn yr enwad gan cynnwys cau Swyddfa Ieuentid ym Manceinion. Bydd unigolun yn cael ei apwyntio i lewnwi'r swydd a gofalu am ieuentid.

Yng Nghymru mae Chris Gillham yn adeiladu perthynas gyda Christnogion Syria a dylem barhau i gofio am y sefyllfa druenus sy yno yn ein gweddiau.

Hyfforddiant - mae cwrs lleol yn cael ei gynnal yn Llanbed sy'n arwain at Achrediad cenedlaethol. Ond mae ymgeiswyr am y weinidogaeth lawn yn astudio y Winchester neu St Ioan, Efrog. Mae rhain yn hen golegau sy wedi hen sefydlu ac yn cynnig hyfforddiant yni Weinidogion, Addolweinwyr, Caplaniaid, Swyddogion Encil. Dydy' rhain ddim i gyd yn weinidogion ordeiniedig ond maent yn cael eu cymwysu i fod yn gynghorwyr. Mae Dr. Janet Wooton yn ymddeol ac mae olynydd wedi apwyntio i'w swydd.

Ar un llaw, mae'r weinidogaeth yn anodd ac yn gallu ymdopi gydag arweinwyr lleyg. Ar y llaw arall, mae'r achos yn ffynnu ac mae eglwysi lleol yn awyddus i gydweithio gydag Eglwysi ymneulltiol arall a rhannu gweinidogaeth ac adeiladau.

Diolchwyd am gyfraniad y gwahanol enwadau.

6b. Addysg. Ymddiheuriadau oddi wrth Vaughan Salisbury. Adroddodd Gethin Rhys yn ei le. Roedd Vaughan wedi anfon adroddiad ymlaen llaw. Mae Gethin yn rhan o bwyllgor ail strwythuro addysg yng Nghymru. Bydd cyfarfod cyn hir i drafod y dyniaethau a darganfuwn beth fydd newidiadau Addysg Grefyddol yng Nghymru. Bydd circiwlm newydd yn cael ei gyhoeddi ac mae Gethin yn cysylltu'n agos gyda'r Llywodraeth. Erbyn cyfarfod Tachwedd bydd mwy o wybodaeth am fwriad y Llywodraeth. Rhwng 2018 a 2021 bydd pob ysgol yn gallu arbrofi ar sail y circiwlm newydd. Bydd ysgolion yn gallu adrodd nôl eu barn am agweddau ohono. Holwyd am ddeddfwriaeth sylfaenol o ran Add. Gref. Cyhoeddodd Huw Lewis na fyddai'r Llywodraeth yn y Senedd yn newid gofynion y ddeddf.

6c. Trysorydd. Mae'r adroddiad ariannol eleni yn cynnwys Mantolen o Medi 2015 tan Rhagfyr 2016. Yn Nhachwedd cytunwyd newid y flwyddyn ariannol o Ionawr i Rhagfyr. Esboniodd Martin ei fod wedi ysgrifennu at yr enwadau i egluro hyn. Bydd swm o £1,500 yn dod i goffrau C.E. Rh. C yn flynyddol. Mynegodd hefyd bod Vivian Williams yn parhau i ddangos llawer o ddiddordeb yng ngwaith C.E.Rh. C. Diolchwyd am ei adroddiad.

7. Cyfarchion C.E.Rh.

Cyflwynodd y ddau Paul eu hunain a rhoi amlinelliad o'u gwaith o fewn y grwp yn Llundain. Mae Paul Rochester yn Ysgrifennydd y grŵp ac mae Paul Gutteridge yn swyddog cyfathrebu.

Amlinellodd Paul Rochester yn gyntaf bod 4 llinach i'w waith. 1.- carchar. 2. – iechyd. 3. – addysg ffydd. 4. – llais cyhoeddus.

1. Carchar – mae'r grŵp wedi canolbwyntio ar gaplaniaeth o fewn carchar - rhan o Welcome Directory. Mae pob cymuned ffydd angen bod yn rhan o hwn. Mae angen i'r arweinwyr groesawu pobl o fewn cymuned carchar a diogelu. Mae'r Welcome Directory yn rhedeg cwrs tridiau i hyfforddi pobl i wneud hyn. Mae angen dod â'r eglwys i'r carchar a'r carcharorion yn gallu teimlo diogelwch i fynychu lle o addoliad wedi gadael.
2. Iechyd - mae hwn yn amlwg yn bwysig bellach gyda gofal yn y gymuned yn cael blaenoriaeth ac mae angen caplaniaid i gynorthwyo. Mae 6 ardal mewn cynllun peilot i ddatblygu hwn. Mae NHS Lloegr yn ariannu ac mae'r caplaniaid yn arwain y ffordd yn y gymuned.
3. Addysg – mae hwn yn golygu adroddiadau a chynlluniau mewn 2 sector – Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Yn adran Addysg Bellach mae 3 miliwn o bersonau yn rhan o'r sector yma ac mae cynnwys yr eglwys yn lleol yn bwysig. Maent yn siarad â'r Llywodraeth yn San Steffan am polisiau. Addysg Uwch - Bellach does dim caplaniaeth ffurfiol ond fel grŵp gobeithia'r CERh ffurfio gwell cefnogaeth yn y dyfodol.
4. Llais yn y sgwâr cyhoeddus – mae hwn yn delio gyda'r cyfryngau cymdeithasol. Mae strategaeth i ddatblygu sut fydd yr eglwys a'r gymdeithas wedi'r etholiad gyffredinol. Sut all yr Eglwys Rhyddion fod o werth i gymdeithas? Mae angen mawr i'r eglwys fod yn weledig wrth fwrdd y llywodraeth. Mae cynghorydd Theresa May yn Gristion ac yn cydymdeimlo gyda sefyllfa ac mae clust y prifweinidog ganddo. Cred CERh fod angen "hyb" o Weinidogion /Arweinwyr i fod yn ddylanwad ar y Llywodraeth ac i drafod a chysylltu'n effeithiol drwy'r cyfryngau torfol a chyfryngau'r llywodraeth a gweithio tu cefn.

Mynegodd y ddau y byddent am weithio'n agos gyda CERh C ac edrych ar sefyllfaoedd na sy wedi ei ddatganoli. Mynegwyd bod anhawster gan yr eglwys lleiafrifol i gael llais a chynrychiolaeth ac ond yn cael cynnig mynychu un cyfarfod y flwyddyn ac mae angen mwy o gynrychiolwyr arnynt.

Diolchodd Peter a gwerthfawrogodd ar ran y Cyngor bod y ddau wedi dod i 'n cyfarfod yng Nghaerdydd yn hytrach na gofyn i ni fyny i gyfarfod yn Llundain. Gobeithiodd bydd y berthynas a'r trafodaethau'n parhau yn y dyfodol.

UFA. Gofynnodd Sally a oedd rhywun wedi cael gwahoddiad i sgwrsio am Ddarlledu crefydd ar y BBC dydd Iau 18 Mai. Doedd neb.

Diolchodd y Llywydd i'r cyfieithydd am ei waith.

Diolchodd i Helen am drefnu'r cyfarfod ac am baratoi lluniaeth.

Oedfa'r Llywydd:

Dechreuwyd drwy offrymu fer gan Parch Judith Morris.

Cyn cyflwyno'r Llywydd newydd mynegodd Peter ei bod yn fraint cael cyfle i fod yn Llywydd dros y 3 blynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod dwedodd ei fod wedi cael cyfle i ddod i adnabod ffrindiau newydd ac wedi mwynhau cydweithio gyda'r enwadau. Byddai'n edrych ymlaen i ddod nôl i gyfarfodydd yn y dyfodol.

Wrth gyflwyno'r Llywydd newydd mynegodd Peter na allai feddwl am well olynydd iddo na Rheinallt Thomas. Mae gwerthfawrogiad mawr i'w waith nodedig yn y byd Addysg Grefyddol ac ym myd addysg yn gyffredinol. Yn ystod ei yrfa mae Mr Thomas wedi bod yn athro Ysgol ac yn ddarlithydd yn y Coleg Normal, Bangor am dros 11 mlynedd. Penodwyd ef yn gyfarwyddwr cyntaf Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol a gwasanaethodd fel gyfarwyddwr am dros 20 mlynedd. Mae ei gyfraniad I Gyngor Ysgolion Sul Cymru wedi bod yn anfesuriadwy. Bu'n Gadeirydd, yn Ymddiriedolwr ac yn ddiweddarach yn Drysorydd. Mae Rheinallt Thomas wedi bod yn gaffaeliad i'r Cyngor a'i arweiniad bob amser yn ddoeth a chadarn.

Elwodd C.E.Rh.C. yn fawr o'i arbenigedd ym myd Addysg ac fe gynrychiolodd y Cyngor ar niferoedd o bwyllgor author cenedlaethol gan sicrhau fod llais Ymneulltiaeth yn cael ei glywed mewn trafodaethau Addysg Grefyddol yng Nghymru (1997 -2013).

Roedd Rheinallt Thomas yn aelod ac yn flaenor yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Llanfair PG a bu'n Ysgrifennydd y capel hwnnw am 40 mlynedd. Bellach, mae ef a'i briod wedi ymaelodi yn Salem, Treganna, Caerdydd. Fe fydd yr eglwys honno yn sicr o elwa o'i ddoethineb a'i arweiniad. Yn bersonol bu'n fraint o gael cydweithio gydag ef ar niferoedd o bwyllgorau.

Wedi ei arwisgo gan y Parch Peter Dewi Richards mynegodd y Llywydd newydd mai braint oedd cael ei ethol ac addawodd i wneud ei orau dros y Cyngor. Diolchodd i Peter am ddod â phrofiadau Llundain i sefyllfa wahanol. Dywedodd ei fod yn teimlo hi'n fraint fel lleygwr i dderbyn mantell Llywydd. Ef oedd y lleygwr cyntaf i fod yn Llywydd CERh y gogledd. Ers hynny dywedodd bod sawl merch ond nad oedd un dyn! Roedd yn falch fod ei gysylltiad gyda CERh yn parhau. Bu'n mynd i Lundain ers 1997 i gynrychioli grŵp addysg ar bwyllgor CERh. Mynegodd y byddai'n gobeithio cynrychioli'n gyfiawn yn ystod ei dymor.

Siom fawr iddo oedd diffyg y Wasg a'r Cyfryngau i farn y Cyngor mewn materion o bwys crefyddol. Mae'r Cyngor yn cynrychioli yr enwadau Anghydfurfiol i gyd sy'n addoli yn y Gymraeg a'r Saesneg. Tueddiad y Cyfryngau ydy holi barn Archesgob Cymru heb sylweddoli nad oes eglwys wladol yn bodoli yng Nghymru ers bron canrif – 1921. Mae'n sefyllfa hollol wahanol yn Lloegr.

Mynegodd mai prif amcan CERhC ydy hyrwyddo Cyfathrebu da rhwng arweinwyr yr enwadau sy'n aelodau drwy waith y cyngor sicrhau clywed y llais Anghydfurfiol ynghylch materion o bwys yn Genedlaethol ac yn lleol, sicrhau y cynrychiolir yr enwadau sy'n aelodau mewn digwyddiadau crefyddol a seciwlar.

Roedd gan CERh draddodiad hir o ryddid cydwybod a chredo. Roedd pobl ar hyd y canrifoedd wedi dioddef anffafiaeth oherwydd hyn a chymharodd hyn gyda grwpiau lleiafrifol ym Mhrydain a Chymru heddiw. Er bod pobl yn dehongli eu diwinyddiaeth yn wahanol awgrymodd bod rhaid addasu wrth i'r cymunedau newid. Ffocws cenhadol sy i'w gwaith. Mae angen rhannu stori Duw o fewn y gymuned - stori am ffydd a gweithredu, cariad, gweddi ac addoliad. Mae angen i ni rannu gobaith a chyfiawnder. Ei obaith ydy gweld y Cyngor yn fwy cyhoeddus a llafar yn y dyfodol.

Gorffennodd drwy ddweud bod angen i lais Cyngor Eglwysi Rhyddion gael ei glywed trwy roi mwy o wybodaeth ar wefan Cytun, rhannu adroddiadau i'r Pedair Tudalen o'i gweithgareddau ac adrodd ei digwyddiadau i'r Wasg mor eang â phosibl.

Cyhoeddodd y Llywydd newydd y fendith.

Gorffennwyd 2.50.

Bydd cyfarfod nesaf dydd Mawrth 14 Tachwedd am 11.00 yng ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd.